# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 1

RHESTRU ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG

*Rhestru dros dro*

PROSPECTIVE

### 85 Diwedd rhestru dros dro

(1) Mae rhestru dros dro adeilad yn cael effaith tan ddiwedd y 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'n cymryd effaith o dan adran 83(4), oni bai ei fod yn dod i ben o dan is-adran (2) neu (3).

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn cyflwyno hysbysiad o dan adran 78(1) o gynnig i restru'r adeilad, daw rhestru dros dro i ben pan fydd gwarchodaeth interim yn cymryd effaith mewn perthynas â'r adeilad (ac mae'r adeilad yn parhau i gael ei drin fel pe bai'n adeilad rhestredig at ddibenion penodol yn rhinwedd adran 79(2)).

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod cynllunio yn ysgrifenedig nad ydynt yn bwriadu ymgynghori o dan adran 78 ar gynnig i restru'r adeilad, daw rhestru dros dro i ben ar ddechrau'r diwrnod a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Mae Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch effaith rhestru dros dro yn dod i ben—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o 6 mis a grybwyllir yn is-adran (1), neu

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 85 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) oherwydd bod Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (3) nad ydynt yn bwriadu ymgynghori ar gynnig i restru'r adeilad.

(5) Os daw rhestru dros dro i ben mewn perthynas ag adeilad oherwydd bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod cynllunio nad ydynt yn bwriadu ymgynghori ar gynnig i restru'r adeilad—

(a) rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw ar unwaith i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad;

(b) ni chaiff yr awdurdod gyflwyno hysbysiad rhestru dros dro arall mewn cysylltiad â'r adeilad yn ystod y 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r hysbysiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 85 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 85 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.